


Adroddiad Arolygu ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Eliminate Wellbeing Services (Pont-y- clun), Llantrisant

Dyddiad yr arolygiad: 17 Mehefin 2026

Dyddiad cyhoeddi: 17 Gorffennaf 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-249-8

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	9
	Ansawdd Profiad y Claf	9
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	15
4.	Y camau nesaf.....	17
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	18
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	19
	Atodiad C – Cynllun gwella	20



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Eliminate Wellbeing Services (Pont-y-clun) ar 17 Mehefin 2026.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 20 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, gwelsom fod y cleifion yn cael profiad cadarnhaol yn y lleoliad. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir yn 'dda iawn'. Roedd y cleifion yn cael cymorth i wneud penderfyniadau gwybodus drwy ymgynghoriadau, cyfleu risgiau a manteision yn glir, a'r defnydd cyson o gydsyniad ysgrifenedig. Roedd urddas a pharch yn cael eu cynnal ym mhob rhan o'r broses, gyda mesurau preifatrwydd a threfniadau hebryngwr priodol. Roedd y lleoliad yn hyrwyddo iechyd a llesiant drwy gyngor wedi'i deilwra a gwybodaeth hygrych. Roedd gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu mewn modd strwythuredig, gan gynnwys profion croen a chanllawiau ôl-ofal. Gwelsom arferion cynhwysol, gydag ymrwymiad clir i gydraddoldeb a dewis cleifion. Roedd trefniadau ar waith i gasglu adborth gan gleifion a gweithredu arno i gefnogi gwelliannau parhaus i'r gwasanaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dywedodd pob claf a ymatebodd i'r holiadur ei fod wedi cael profiad cadarnhaol
- Roedd urddas a pharch yn cael eu cynnal yn dda
- Roedd prosesau cydsynio clir a chynhwysfawr ar waith.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau, gan gynnwys argaeledd cyfarpar priodol, polisïau a hyfforddiant staff. Roedd prosesau rheoli yn effeithiol yn bennaf, gyda mesurau diogelwch tân, asesiadau iechyd a diogelwch a threfniadau cymorth cyntaf priodol ar waith. Fodd bynnag, roedd angen gwelliannau i sicrhau bod y cyfarpar canfod tân yn cael ei brofi'n rheolaidd.

Roedd y cyfarpar laser yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol, gyda threfniadau gwasanaethu, calibradu a chymorth gan Gynghorydd Diogelu rhag Laserau. Roedd y staff wedi'u hyfforddi'n addas ac roedd gwiriadau cyn triniaeth yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, roedd angen gwneud gwelliannau pellach i gryfhau'r broses o ddogfennu gwiriadau o'r cyfarpar. Roedd trefniadau cadw cofnodion a diogelu yn briodol ac yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Defnyddio arwydd i ddangos pan fydd y laser yn cael ei ddefnyddio
- Cynnal gwiriadau wedi'u dogfennu o gyfarpar laser a sbectolau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cynnal yn dda, yn ddiogel ac yn cynnwys gwybodaeth glir, gywir a chynhwysfawr.
- Roedd y lleoliad yn lân, mewn cyflwr da ac yn cynnig amgylchedd diogel
- Roedd trefniadau diogelu effeithiol ar waith.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth priodol ar waith i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel. Roedd y gwasanaeth yn cael ei reoli'n llwyr gan y rheolwr cofrestredig. Roedd polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith, a dywedwyd wrthym eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Gwelsom fod dogfennau allweddol, gan gynnwys tystysgrifau cofrestru ac yswiriant, yn cael eu harddangos i'r cleifion.

Roedd prosesau clir wedi'u sefydlu i reoli cwynion a digwyddiadau, gyda gwybodaeth hygyrch yn cael ei rhoi i'r cleifion a llwybrau uwchgyfeirio priodol ar waith. Er nad oedd unrhyw gwynion wedi dod i law, dangosodd y rheolwr cofrestredig ddealltwriaeth o'r gofynion adrodd. Roedd y rheolwr cofrestredig yn meddu ar y cymwysterau priodol, gyda thystiolaeth o'r hyfforddiant diweddaraf a datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd trefniadau ar waith i reoli parhad y gwasanaeth yn ystod cyfnodau o absenoldeb, ac roedd systemau cadw cofnodion yn cefnogi trefniadau llywodraethu a goruchwyllo effeithiol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith
- Cymwysterau priodol a thystiolaeth o hyfforddiant parhaus a datblygiad proffesiynol parhaus
- Proses hygyrch ar gyfer adborth a chwynion.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y lleoliad i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir yn y lleoliad. Cawsom gyfanswm o 20 o holiaduron wedi'u cwblhau. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir yn 'dda iawn'.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

" Proffesiynol, cwrtais a chyfeillgar iawn. Rwyf bob amser yn teimlo'n ddiogel, mae'r amgylchedd yn lân ac rwy'n edrych ymlaen at fy apwyntiadau ... "

" Roedd hwn yn wasanaeth ardderchog sy'n cael ei redeg gan staff gwydh; Roeddwn i wir yn gwerthfawrogi'r sylw i sicrhau fy mod i'n gyfforddus. "

" Glân iawn ac roedd gan y staff agwedd broffesiynol a oedd yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus. "

"Amgylchedd hamddenol a chyfeillgar iawn. Gwybodus iawn. "

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedwyd wrthym fod y lleoliad yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn ystod y broses ymgynghori â chleifion ac yn y cyngor ar ôl-ofal a roddir i gleifion. Roedd y staff yn trafod cyngor ar y Ffactor Amddiffyn rhag yr Haul (SPF), lefelau yfed alcohol a lefelau yfed dŵr gyda gwybodaeth sy'n benodol i anghenion bob claf. Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw hefyd yn cael ei hyrwyddo ar dudalen cyfryngau cymdeithasol y lleoliad.

Urddas a pharch

Yn ystod yr arolygiad, roeddem o'r farn bod y staff yn gyfeillgar ac yn groesawgar. Dywedwyd wrthym fod drws yr ystafell laser yn cael ei gadw ar gau yn ystod triniaethau. Roedd pob ymgynghoriad yn cael ei gwblhau yn yr ystafell drin ac na allai unrhyw un arall glywed y sgysiau.

Gwelsom fod polisi hebryngwr priodol ar waith yn y lleoliad. Dywedwyd wrthym fod y staff wedi trafod yr opsiwn o gael hebryngwr gyda'r cleifion ar lafar. Roedd set ychwanegol o sbectolau ar gael rhag ofn bod yr hebryngwr yn bresennol yn ystod y driniaeth. Roedd clo ar ddrws yr ystafell drin, sy'n galluogi cleifion i newid mewn

preifatrwydd os bydd angen. Roedd blanced a thywelion papur ar gyfer triniaethau hefyd ar gael er mwyn helpu i gynnal urddas cleifion yn ystod y driniaeth.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Gwelsom fod gan y lleoliad bolisi galluedd i gydsynio i driniaeth addas ar waith. Dywedwyd wrthym fod triniaethau wedi cael eu hesbonio'n llawn yn ystod y cam ymgynghori a bod cydsyniad ysgrifenedig i driniaeth wedi'i ddogfennu gyda llofnodion gan gleifion yn ystod pob ymweliad.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf. Roedd ffurflenni cydsynio wedi'u llofnodi ar gael ar gyfer pob un o'r pum claf a gwelsom dystiolaeth bod eu hanesion meddygol wedi'u dogfennu gyda gwiriadau pellach wedi'u cwblhau yn ystod pob ymweliad. Dywedwyd wrthym fod risgiau a manteision triniaethau yn cael eu trafod â chleifion yn ystod y broses ymgynghori, a bod gwybodaeth bellach yn cael ei darparu mewn taflenni ac ar y ffurflen feddygol.

Dyweddodd pob claf a ymatebodd i'r holiadur ei fod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd Datganiad o Ddiben a chanllaw i gleifion ar waith yn y lleoliad, a oedd ar gael i gleifion mewn ffolder cleifion oedd ar gael yn rhwydd. Roedd y Datganiad o Ddiben yn cynnwys y wybodaeth a oedd yn ofynnol gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Dywedwyd wrthym pe bai cleifion am siarad Cymraeg neu pe bai angen iddynt ddefnyddio unrhyw iaith arall, y byddai'r lleoliad yn gofyn i'r claf ddod â chyfieithydd. Os nad oedd hyn yn bosibl, byddai'r gwasanaeth yn trefnu cyfieithydd.

Roedd gwybodaeth i gleifion ar gael ar gais mewn fformatau amgen, megis print bras, a gellid anfon gwybodaeth drwy e-bost. Roedd cleifion nad oedd ganddynt ddyfeisiau digidol yn gallu ffonio'r lleoliad neu ddod i'r lleoliad eu hunain i drefnu apwyntiad. Byddai gwybodaeth hefyd yn cael ei darparu i gleifion ar bapur lle bo angen.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael ymgynghoriad llawn wyneb yn wyneb. Yn ystod yr ymgynghoriad, bu'r staff yn trafod opsiynau triniaeth, cost triniaeth a'r risgiau a'r manteision ar lafar. Dywedwyd wrthym fod profion croen yn cael eu cynnal cyn triniaeth a bod hanes meddygol y claf yn cael ei ddogfennu. Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth am ôl-ofal yn cael ei darparu i gleifion ar ôl triniaeth ar lafar gyda gwybodaeth ysgrifenedig hefyd yn cael ei rhoi. Roedd gwybodaeth hefyd ar gael ar wefan y lleoliad.

Dywedodd pob ymatebydd a gwblhaodd holiadur ei fod wedi cael prawf croen cyn cael triniaeth newydd, a'i fod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr holl opsiynau triniaeth ynghyd â'r risgiau a'r manteision.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth ar gael yn y polisi ar gyfer asesu, ymgynghori, cynllunio triniaethau a darparu gofal ac roedd yr aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Dywedwyd wrthym fod pob claf a oedd yn mynychu'r lleoliad yn cael ei drin yn gyfartal ac na chaiff gwahaniaethu ei oddef. Dywedwyd wrthym fod hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu cynnal, a bod y gwasanaeth yn defnyddio'r enwau a'r rhagenwau a ffeirir gan y cleifion.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu ei ddefnyddio.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd cleifion yn cael eu hannog i adael adolygiadau drwy lwyfannau ar-lein, ac roedd cod QR ar gael yn yr ystafell drin er mwyn rhoi adborth mewnol. Roedd yr adborth a gafwyd drwy'r cod QR yn ddienw.

Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth yn adolygu adborth gan gleifion ac yn ei ddefnyddio i gefnogi gwelliannau. O ganlyniad i adborth gan gleifion, roedd y gwasanaeth wedi cyflwyno mat gwres ar y gwely trin gan fod cleifion wedi dweud yn flaenorol ei fod yn rhy oer.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Gwelsom fod y lleoliad yn lân ac wedi'i addurno i safon dda. Gwelsom fod pob ardal wedi'i goleuo'n dda ac yn edrych yn fodern. Roedd gan y lleoliad gaeaf ar flaen yr adeilad, ac roedd systemau diogelwch addas yn cael eu defnyddio ar gyfer drysau a ffenestri.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw nwy yn cael ei ddefnyddio ar y safle. Gwelsom dystiolaeth o dystysgrifau Profion Dyfeisiau Cludadwy. Fodd bynnag, pan wnaethom ofyn am gael gweld yr Adroddiad ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol bob pum mlynedd, nid oedd hwn ar gael. Cafodd hyn ei ddatrys ar ddiwrnod yr arolygiad, gyda thystiolaeth yn cael ei ddarparu yn fuan ar ôl yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn [Atodiad A](#).

Gwnaethom adolygu'r trefniadau ar gyfer diogelwch tân yn y lleoliad a gwelsom fod asesiad risg tân addas ar waith a oedd yn cael ei adolygu'n flynyddol. Gwelsom fod diffoddwyr tân ar gael yn y lleoliad a oedd yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd gan gwmni allanol. Roedd tystiolaeth o ymarferion tân rheolaidd ar gael, a gwelsom fod tystiolaeth wedi'i dogfennu bod y staff yn cynnal profion o'r cyfarpar canfod tân. Fodd bynnag, gwnaethom nodi fod bylchau mawr rhwng dyddiadau profi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cyfarpar canfod tân yn cael ei brofi'n rheolaidd.

Gwelsom fod arwyddion ar gyfer yr allanfa dân wedi'u gosod mewn mannau priodol ym mhob rhan o'r lleoliad a bod llwybrau dianc rhag tân priodol ar gael. Roedd y cyfarwyddiadau i'w dilyn pe bai tân ac arwyddion 'dim smygu' wedi'u harddangos mewn ardaloedd lle gall y cleifion eu gweld yn hawdd.

Gwelsom asesiad risg iechyd a diogelwch y lleoliad a oedd wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwelsom fod staff a oedd wedi cael cymorth cyntaf priodol ar gael, a bod pecyn cymorth cyntaf ar gael yn hawdd.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd yr amgylchedd yn amlwg yn lân ac nid oedd unrhyw annibendod. Roedd yr holl arwynebau gwaith, lloriau a dodrefn mewn cyflwr da, a oedd yn cefnogi trefniadau effeithiol ar yfer glanhau a rheoli heintiau.

Roedd polisi atal a rheoli heintiau ar waith ac roedd wedi cael ei adolygu o fewn y flwyddyn ddiwethaf, ac roedd trefniadau priodol ar waith i helpu i atal a rheoli heintiau. Roedd cyfleusterau hylendid dwylo ar gael yn yr ystafell drin, gan gynnwys sinc, sebon a hylif diheintio dwylo. Roedd cyfarpar diogelu personol addas ar gael yn hawdd, gan

gynnwys menig, masgiau a ffedogau. Gwelsom fod chwistrell a weips priodol yn cael eu defnyddio ar gyfer glanhau a dihalogi cyfarpar ac arwynebau, gan gynnwys weips ar wahân ar gyfer croen ac arwynebau.

Gwnaethom nodi nad oedd amserlen lanhau ar waith ar adeg yr arolygiad; fodd bynnag, rhoddwyd amserlen lanhau ar waith ar y diwrnod. Gwelsom dystiolaeth bod yr aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau i'r lefel ofynnol.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff yn ddiogel. Roedd contract cyfredol ar waith gyda chludwr gwastraff cofrestredig i gasglu gwastraff clinigol, gan gynnwys offer miniog a bagiau clinigol. Dywedwyd wrthym fod gwastraff yn cael ei storio yn yr ystafell drin cyn iddo gael ei gasglu, ac y byddai'r ystafell yn cael ei chloi pan nad oedd yn cael ei defnyddio.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur fod y lleoliad yn 'lân iawn' a bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Gwelsom fod polisi diogelu ar waith sy'n cwmpasu oedolion a phlant. Y rheolwr cofrestredig oedd yr arweinydd diogelu ar gyfer y lleoliad ac roedd yn gyfrifol am gynnal trefniadau diogelu.

Gwelsom dystiolaeth bod hyfforddiant priodol ar ddiogelu wedi cael ei gwblhau, gyda hyfforddiant ar ddiogelu oedolion wedi'i gwblhau hyd at lefel 2. Roedd y rheolwr cofrestredig yn gallu disgrifio'r broses i'w dilyn pe bai pryder diogelu yn codi.

Roedd y lleoliad wedi'i gofrestru i drin cleifion 18 oed a throsodd. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig i'r lleoliad gydymffurfio â hyn ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd plant yn cael eu caniatáu ar y safle, ac roedd trefniadau ar waith i sicrhau eu diogelwch. Lle na ellid gwneud trefniadau addas, byddai apwyntiadau yn cael eu had-drefnu.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y peiriant laser yn y lleoliad yr un fath â'r un a oedd wedi'i gofrestru ag AGIC ac roedd y gwaith o galibradu'r peiriant a'i wasanaethu yn cael ei gwblhau yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Gwelsom dystiolaeth bod contract cyfredol ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau. Y tro diwethaf y gwnaeth y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ymweld â'r safle oedd ym mis Chwefror 2025. Roedd adroddiad wedi'i ddarparu a oedd yn cynnwys rheolau lleol ac asesiadau risg. Roedd y rheolau lleol yn nodi'n glir pob peiriant laser/Goleuni Pwls Dwys a oedd yn cael ei ddefnyddio ac yn cynnwys trefniadau wrth gefn priodol yn achos digwyddiad neu anaf. Cawsom hefyd gopi o'r protocolau meddygol priodol ar gyfer y peiriant a ddefnyddir.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod y cyfarpar laser yn cael ei gadw'n ddiogel pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio. Roedd arwydd wedi'i arddangos ar ddrws yr ystafell drin i roi gwybod i eraill fod peiriant laser yn yr ystafell. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd system glir ar waith i nodi pan oedd y laser yn cael ei ddefnyddio, fel arwydd rhybudd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i roi gwybod i eraill pan fydd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio.

Gwelsom fod sbectolau amddiffynnol addas ar gael i'r gweithredwr ac i'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod sbectolau yn cael eu gwirio cyn iddynt gael eu defnyddio, a gwelsom eu bod mewn cyflwr da ac yn unol â'r hyn a amlinellir yn y rheolau lleol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i dogfennu i ddangos bod y gwiriadau hyn wedi cael eu cofnodi'n rheolaidd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddogfennu'r gwiriadau sy'n cael eu cwblhau ar sbectolau cyn rhoi triniaeth.

Dywedwyd wrthym fod gwiriadau sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal ar y peiriant laser cyn pob triniaeth, er enghraifft, i wirio'r lens cyn ei ddefnyddio. Fodd bynnag, nid oedd y gwiriadau hyn yn cael eu cofnodi'n ffurfiol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddogfennu bod gwiriadau'n cael eu cwblhau ar y peiriant laser cyn rhoi triniaeth.

Roedd y rheolwr cofrestredig a oedd yn gweithredu'r peiriant laser wedi cwblhau hyfforddiant ar gyfer y peiriant penodol. Cynhaliwyd gwiriadau cyn triniaeth ar gyfer pob claf, gan gynnwys profion croen a chwblhau hanesion meddygol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Dywedwyd wrthym fod ansawdd y gwasanaeth yn cael ei fonitro drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys y defnydd o adborth gan gleifion ac adolygu canlyniadau triniaethau. Roedd y rheolwr cofrestredig yn defnyddio ffotograffau cyn ac ar ôl triniaethau i asesu effeithiolrwydd triniaethau a llywio ymarfer parhaus.

Rheoli cofnodion

Roedd y practis yn cynnal cofnodion cleifion electronig. Roedd cofnodion yn cael eu storio ar system ddiogel o'r enw 'Timely', a oedd wedi'i diogelu â chyfrinair i sicrhau bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel.

Dangosodd y rheolwr cofrestredig ddealltwriaeth o gyfnodau cadw priodol ar gyfer cofnodion gofal ac roedd yn gallu disgrifio'r broses o gael gwared ar gofnodion yn ddiogel.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion triniaeth pum claf a gwelsom eu bod yn glir, yn gywir ac yn hawdd eu dilyn. Roedd cofnodion yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, fel manylion adnabod cleifion, y math o gyfarpar a ddefnyddiwyd, dyddiad a lleoliad y driniaeth, paramedrau perthnasol, nifer y dosau a manylion am unrhyw effeithiau andwyol lle y bo'n berthnasol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd Eliminate Wellbeing Services yn cael ei redeg gan y rheolwr cofrestredig, a oedd hefyd yn berchen arno, ac nid oedd unrhyw aelodau eraill o staff. Y rheolwr cofrestredig oedd unig weithredwr y peiriant laser. Gwelsom fod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a thystysgrifau cofrestru AGIC y lleoliad wedi'u harddangos mewn ardal lle gall y cleifion eu gweld yn hawdd. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau addas ar waith, a oedd yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod polisi cwynion priodol a chyfredol ar waith, a oedd yn amlinellu'r broses gwyno a'r amserlenni ar gyfer ymateb. Roedd manylion cyswllt AGIC hefyd ar gael pe bai claf o'r farn nad oedd y mater wedi'i ddatrys. Gan mai dim ond un aelod o staff oedd yn y lleoliad, byddai'r rheolwr cofrestredig yn ymchwilio i'r holl gwynion a phryderon. Pe bai cwyn yn ymwneud â'r rheolwr cofrestredig, byddai'n ceisio cyngor gan ei chynghorydd diogelu rhag laserau.

Roedd y polisi cwynion hwn ar gael yn y canllaw i gleifion, ar ffurflenni meddygol a thrwy god QR a oedd yn galluogi mynediad i bolisïau perthnasol. Gellid hefyd ddarparu copïau papur ar gais i ddiwallu anghenion cyfathrebu cleifion. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw gwynion ffurfiol wedi dod i law.

Dywedwyd wrthym y byddai AGIC yn cael ei hysbysu am unrhyw ddigwyddiadau hysbysadwy yn unol â'r gofynion, ac roedd y rheolwr cofrestredig yn gallu disgrifio'r broses o gysylltu ag AGIC a dilyn y gweithdrefnau adrodd priodol.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gan mai'r rheolwr cofrestredig yw'r perchennog a'r unig aelod o staff ar gyfer y lleoliad laser, nid oedd polisi recriwtio ar waith. Dywedwyd wrthym nad oedd gan y rheolwr cofrestredig unrhyw gynlluniau i gyflogi unrhyw staff yn y dyfodol. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i gwblhau ar gyfer y rheolwr cofrestredig a thystiolaeth o gymwysterau perthnasol ar gyfer y rôl.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cael ei redeg gan reolwr cofrestredig, a oedd yn gyfrifol am bob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir. Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith i reoli cyfnodau o absenoldeb. Roedd cyfnodau o absenoldeb yn cael eu trefnu ymlaen llaw, a byddai'r lleoliad yn cysylltu â chleifion yn uniongyrchol i roi gwybod iddynt os byddai angen ad-drefnu apwyntiadau pe bai salwch.

Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig yn cynnal ei gwybodaeth a'i sgiliau drwy gwblhau hyfforddiant ar yr adegau gofynnol a chael datblygiad proffesiynol parhaus sy'n berthnasol i'r triniaethau a roddir. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaethom ofyn am gael gweld cofnodion hyfforddiant y rheolwr cofrestredig. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar gyfer Craidd Gwybodaeth, hyfforddiant ar gyfer cyfarpar laser penodol, atal a rheoli heintiau, ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân, iechyd a diogelwch, diogelu data a diogelu i'r lefel ofynnol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Pan wnaethom ofyn am gael gweld yr Adroddiad ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol a gynhelir bob pum mlynedd, nid oedd hwn ar gael.	Roedd absenoldeb Adroddiad ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol cyfredol yn golygu na ellid sicrhau diogelwch y gosodiadau trydanol, a oedd yn cynyddu'r risg o ddiffygion trydanol a all beryglu diogelwch y cleifion, y staff a'r ymwelwyr.	Codwyd hyn â'r rheolwr cofrestredig a pherchennog yr eiddo ar ddiwrnod yr arolygiad.	Gwnaed trefniadau ar ddiwrnod yr arolygiad i gwblhau'r Adroddiad ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol, a rhoddwyd tystiolaeth bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Eliminate Wellbeing Services (Pont-y-clun)

Dyddiad yr arolygiad: 17 Mehefin 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau		Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.	
Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad	
1.			

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Eliminate Wellbeing Services (Pont-y-clun)

Dyddiad yr arolygiad: 17 Mehefin 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Gwnaethom nodi bod bylchau mawr rhwng dyddiadau profi'r cyfarpar canfod tân.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cyfarpar canfod tân yn cael ei brofi'n rheolaidd.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 26 (4)(a)	Dylai'r Rheolwr Cofrestredig gael cofnod annibynnol ar gyfer profion o'r cyfarpar canfod tân i sicrhau bod hyn yn cael ei gwblhau'n rheolaidd.	Rheolwr Cofrestredig	Ar unwaith – rhoddwyd hwn ar waith ar ddiwrnod yr arolygiad.
2.	Gwnaethom nodi nad oedd system glir ar waith i nodi pan oedd y laser yn cael ei ddefnyddio, fel arwydd rhybudd.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i roi gwybod i eraill pan fydd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 26 (1)	Dylai'r Rheolwr Cofrestredig archebu arwydd 'wrthi'n cael ei ddefnyddio' ar gyfer y fynedfa i'r ystafell laser.	Rheolwr Cofrestredig	Archebwyd hyn ar ddiwrnod yr arolygiad, ac roedd ar waith o fewn dau ddiwrnod.

3.	Nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i dogfennu i ddangos bod y gwiriadau hyn yn cael eu cofnodi'n rheolaidd.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddogfennu'r gwiriadau sy'n cael eu cwblhau ar sbectolau cyn rhoi triniaeth.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 26 (2)	Dylai'r Rheolwr Cofrestredig greu dogfen gwiriadau rheolaidd i'w llofnodi cyn ac ar ôl pob cleient, yn ogystal ag yn ystod gwiriadau cyn gwasanaeth ar ddechrau'r dydd.	Rheolwr Cofrestredig	Ar unwaith – rhoddwyd hwn ar waith ar ddiwrnod yr arolygiad.
4.	Nid oedd gwiriadau sicrhau ansawdd cyn defnyddio'r peiriant laser yn cael eu cofnodi'n ffurfiol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddogfennu bod gwiriadau'n cael eu cwblhau ar y peiriant laser cyn rhoi triniaeth.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 26 (2)	Dylai'r Rheolwr Cofrestredig greu dogfen gwiriadau rheolaidd i'w llofnodi cyn ac ar ôl pob cleient, yn ogystal ag yn ystod gwiriadau cyn gwasanaeth ar ddechrau'r dydd.	Rheolwr Cofrestredig	Ar unwaith – rhoddwyd hwn ar waith ar ddiwrnod yr arolygiad.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: Eliminate Wellbeing Services Ltd

Enw (priflythrennau): Eloise Saunders

Swydd: Cyfarwyddwr / Rheolwr / Technegydd Dyddiad: 29/07/2026